# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Seilwaith (Cymru)** |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Lewis Thomas – Cyn Bennaeth Penderfyniadau Cynllunio**<br>**Kym Scott – Rheolwr y Bil Cynllunio** |
| **Adran:** | **CCRA – Cynllunio** |
| **Pennaeth yr Is-adran/USC (enw):** | **Neil Hemington – Prif Gynllunydd** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog â chyfrifoldeb:** | **Julie James AS – Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Chwefror 2023** |

# ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Crynodeb o’r Mater**

Mae Deddf Cymru 2017 (“y Ddeddf”) yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol i’r Senedd a Gweinidogion Cymru yn y drefn honno ar gyfer cydsynio datblygiadau cynhyrchu trydan hyd at a chan gynnwys 350MW mewn capasiti cynhyrchu gosodedig, ac ar gyfer llinellau trydan hyd at a chan gynnwys 132kv mewn foltedd enwol sy’n gysylltiedig â ‘gorsafoedd cynhyrchu datganoledig’ (sef y rheini hyd at a chan gynnwys 350MW yn ogystal â gorsafoedd ynni gwynt ar y tir (o gapasiti diderfyn), yn ogystal â gwaith i harbyrau a phorthladdoedd, ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl.

Cyn datganoli'r pwerau hyn, yr Ysgrifennydd Gwladol oedd yn ystyried y mwyafrif o'r datblygiadau hyn fel rhan o gyfundrefn y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n arwain at roi "Gorchymyn Cydsyniad Datblygu" o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Yn hytrach na throsglwyddo swyddogaethau Deddf Cynllunio 2008 i Weinidogion Cymru, mae Deddf 2017 yn gosod y broses o gydsynio i'r prosiectau hyn mewn nifer o gyfundrefnau gwahanol, sydd naill ai'n gyfundrefnau blaenorol neu rai heb eu profi ar gyfer y maint neu'r math hwn o ddatblygiad, gan gynnwys Deddf Trydan 1989 ("Deddf 1989"), Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"), Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ("Deddf 1992") a Deddf Harbyrau 1964 ("Deddf 1964").

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dau brif opsiwn i weithredu’r pwerau datganoledig pellach hyn; naill ai defnyddio’r cyfundrefnau cydsynio presennol, gydag addasiadau; neu gyflwyno trefniadau cydsynio unedig a phwrpasol ar y tir ac yn nyfroedd Cymru.

Gall y rhan fwyaf o'r cyfundrefnau cydsynio lluosog ac sy'n bodoli eisoes, nad ydynt yn destun amserlen statudol, arwain at gyfnod anrhagweladwy i ddod i benderfyniad. Gall hyn greu ansicrwydd i bob parti a gosod costau sylweddol arnynt yn ogystal â malltod cynllunio posibl.

Yn ogystal â hyn, gall defnyddio prosesau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o seilwaith fod yn ddryslyd i'r rhai sy'n ymwneud â nhw, sy'n aml yn golygu'r rhai sydd â'r nifer mwyaf o amser, adnoddau a'r wybodaeth orau sydd yn y sefyllfa orau i ymwneud â’r broses gydsynio.

**Crynodeb o’r Cynnig**

Cynigir uno'r cyfundrefnau cydsynio ar wahân hyn i greu proses gydsynio unedig a phwrpasol, gydag amserlen statudol ynghlwm. Mae ein tystiolaeth, sydd wedi'i chaffael drwy drafodaethau â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus, yn dangos bod achos i uno'r cyfundrefnau presennol ar y sail ganlynol:

Y prif gorff sy'n penderfynu ar gydsyniadau ar y tir o dan Ddeddf 1990 yw Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLlau"). Yn ogystal â hynny, cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 broses gydsynio

newydd, a elwir yn "Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol" ("DAC"). Caiff ceisiadau DAC eu prosesu a'u hystyried gan Arolygwyr Cynllunio ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Arolygydd Cynllunio yn darparu adroddiad i Weinidogion Cymru, y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio i lywio eu penderfyniad eu hunain. Cyn Deddf 2017, cafodd y gyfundrefn DAC ei chynllunio a'i datblygu i gydsynio datblygiadau ynni hyd at 50MW. Ni chafodd erioed ei chynllunio i ddelio â cheisiadau o'r raddfa sydd bellach wedi'i datganoli.

Er bod y ddeddfwriaeth bresennol, ac yn arbennig y gyfundrefn DAC ar y tir a Deddf 1989 ar y môr, wedi'i haddasu i gynnwys y cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch y mathau newydd hyn o geisiadau, mae'r addasiad hwn wedi arwain at broses gydsynio anhylaw a thoredig heb fawr o gysondeb i ymgeiswyr nac i'r cymunedau y mae datblygiadau yn effeithio arnynt. Gall y corff sy'n penderfynu ar y mathau o gais, a all rhychwantu sawl cyfundrefn gydsynio, amrywio yn dibynnu ar y cydsyniad perthnasol y ceisir amdano, yn enwedig ar gyfer cydsyniadau eilaidd, a gall arwain at gyrff yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am benderfyniadau pan nad oes gan y cyrff hynny yr adnoddau digonol i hystyried y penderfyniadau hynny.

Gall prosesau cydsynio toredig arwain at amgylchiadau lle mae anghysondeb yn y polisi ar y cam penderfynu, neu hyd yn oed diffyg polisi byw clir i seilio penderfyniad ynghylch cais arno. Gall hyn arwain at ansicrwydd sylweddol i ddatblygwyr sy'n delio â chynigion buddsoddi mawr. Yn ogystal â hyn, nid oes amserlenni statudol ynghlwm wrth brosesau penodol megis Deddfau 1964 a 1989, yn ogystal â Deddf 1992, yn wahanol i drefn Deddf Cynllunio 2008 neu'r gyfundrefn DAC. Mae hyn yn creu risg ariannol sylweddol i ddatblygwyr.

Gall yr anghysondeb hwn wrth ystyried cyfundrefnau cydsynio sydd mewn grym ar yr un pryd a'r mathau eraill o gydsyniad sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad seilwaith yn ychwanegol i'r cydsyniad datblygu arwain at yr angen i ailgyflwyno cais neu ailadrodd dadleuon o blaid ac yn erbyn datblygiad. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau yn dangos profiad andwyol wrth geisio cydsyniad neu rannu barn ar ddatblygiadau arfaethedig drwy'r gyfundrefn neu gyfundrefnau presennol.

Mae Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil") yn cynnig cyflwyno un gyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer y mathau hyn o geisiadau, a fydd yn ystyried pob cydsyniadau priodol, gan gynnwys cydsyniadau eilaidd, fel rhan o'r un broses ymgeisio a phenderfynu.

Bydd y broses hon yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan gorff sydd â'r sgiliau, yr adnoddau a'r fframwaith polisi priodol, yn ogystal â darparu cyfnod penderfynu gorfodol. Bydd hefyd yn rhoi llawer mwy o sicrwydd i ddatblygwyr sy'n cynnig cynlluniau mawr o'r fath.

Fe'i bwriedir i fod yn broses ddeinamig a fydd yn addasu'r wybodaeth sydd ei hangen a'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gais gan ddibynnu ar raddfa a chymhlethdod y cynnig a'r materion a godwyd. Bydd amserlen statudol safonol ynghlwm wrth y broses, a allai gael ei hamrywio fesul achos cyn derbyn y cais, er mwyn sicrhau cymesuredd.

Bydd y broses hefyd yn sicrhau cyfranogiad y cyhoedd a'r gymuned, drwy ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ac ymgysylltu cyn ymgeisio, yn ogystal â ffurfioli'r cyfle i ddinasyddion a grwpiau cymunedol gymryd rhan mewn gwrandawiadau neu ymchwiliadau cyhoeddus (fel y bo'n briodol) yn y broses o wneud penderfyniadau.

**Cymhwyso Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r Camau Gweithredu Arfaethedig**

Mae'r Pum Ffordd o Weithio wedi cael eu hystyried drwy gydol datblygiad y cynnig hwn, ac fe'u trafodir isod.

*Ffyrdd o Weithio – Y Tymor Hir*

- Bydd y Bil yn rhoi dull strategol a chydlynol i Gymru o ymdrin â phrosiectau seilwaith mawr, ac yn galluogi i benderfyniadau buddsoddi a chynlluniau seilwaith hirdymor gael eu gwneud yng nghyd-destun strategaeth unedig. Bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r prosiectau hyn yn sgil polisi cyson, ac wrth uno cydsyniadau.

*Ffyrdd o Weithio - Atal*

- Bydd y Bil yn uno cydsyniadau, gan ei gwneud yn ofynnol i bob agwedd ar ddatblygiad arfaethedig, neu ran fwyaf ohonynt, gael eu hystyried fel rhan o un penderfyniad. Bydd hyn yn sicrhau bod cydsyniad ond yn cael ei roi ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar unrhyw agwedd ar yr amgylchedd na'r gymuned – gan gynnwys bioamrywiaeth, tirwedd, ansawdd amgylcheddol, amwynderau cymunedol a sawl maes arall. Bydd hyn yn symudiad tuag at ein nodau di-garbon ehangach.

*Ffyrdd o Weithio - Integreiddio*

- Bydd y Bil yn uno cyfundrefnau cydsynio, gan sicrhau eu bod yn dod o fewn dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru fel y'u mynegwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau bod y system gynllunio yn cyflawni datblygiadau cynaliadwy, a bod pob penderfyniad yn ystyried y ffyrdd o weithio.

- Bydd cyfundrefn gydsynio integredig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr yn arwain at benderfyniadau sy'n adlewyrchu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, a gofynion statudol a pholisi.

- O safbwynt ymarferol, bydd y gwaith o wneud penderfyniadau ar bob achos penodol yn sicrhau bod y penderfyniadau hynny yn cael eu gwneud yn unol ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

*Ffyrdd o Weithio - Cydweithio*

- Y prif bartneriaid yw ACLlau, Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"), Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ("PEDW") a datblygwyr, ymhlith eraill, a oedd yn rhan o'r ymarfer ymgynghori ac y defnyddiwyd eu barn i lywio datblygiad y cynigion ar gyfer y Bil.

- Bydd y Bil hefyd yn dod â swyddogaethau a gwaith craffu ynghyd o bob rhan o Lywodraeth Cymru gan gynnwys cynllunio, ynni, trafnidiaeth a chadwraeth natur, i greu un endid penderfynu.

*Ffyrdd o Weithio - Cynnwys*

- Roedd y cynigion hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018 a defnyddiwyd yr ymatebion i lywio datblygiad y cynigion hyn. Yn ogystal â bod yn gyfle i'r cyhoedd gymryd rhan drwy wefan Llywodraeth Cymru, targedwyd grwpiau rhanddeiliaid penodol i ymgysylltu â hwy, megis:
    - ACLlau;
    - Cyrff sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, gan gynnwys PEDW a CNC;
    - Cynghorau Tref a Chymuned;
    - Sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Cymorth Cynllunio Cymru a sefydliadau amgylcheddol; ac
    - Ymgyngoreion statudol ar gynigion datblygu.
- Bydd y Bil hefyd yn ffurfioli'r broses o ymgysylltu â'r gymuned wrth wneud penderfyniadau, sydd ar hyn o bryd yn anffurfiol mewn rhai elfennau o wahanol gyfundrefnau trwyddedu sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig, ac nid yw'n bodoli mewn eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ac yn cael eu clywed ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**Effaith y Cynnig**

- Mae'r prif ddadleuon o blaid y cynnig wedi'u nodi uchod, ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Cysondeb o ran gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ac amcanion strategol ar draws sawl maes cydsynio presennol.
- Sicrwydd i ymgeiswyr o ran proses integredig o wneud penderfyniadau ac amseroldeb penderfyniadau.
- Lleihau'r gost i ymgeiswyr a'r pwrs cyhoeddus yn sgil osgoi gorfod adrodd yr un dadleuon o blaid ac yn erbyn cynigion datblygu ar draws sawl cyfundrefn ar wahân.
- Ffurfioli'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â phrosiectau seilwaith sy'n effeithio arnynt, ac yn achos rhai mathau o ddatblygiadau, cyflwyno'r hawliau hynny lle nad oes rhai yn bodoli.
- Darparu eglurder a chysondeb ar gyfer datblygiad o'r fath mewn deddfwriaeth ddatganoledig, gan ddatrys mater sy'n codi o'r dull a ddefnyddir i ddatganoli'r pwerau.

- Caiff y prif ddadleuon yn erbyn y cynnig eu hadrodd uchod, ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn:
  - Ers i'r pwerau hyn gael eu datganoli yn 2017, mae mesurau a systemau dros dro wedi'u rhoi ar waith i benderfynu ar geisiadau perthnasol. Mae datblygwyr wedi'u mabwysiadu ac addasu iddynt. Byddai'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno newid arall i'r weithdrefn mewn ffrâm amser eithaf byr.
  - Mae goblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â staffio tîm Bil, drafftio a datblygu is-ddeddfwriaeth briodol yn dilyn cydsyniad Deddf ddilynol ac yna rhoi gweithdrefnau ar waith i alluogi'r gyfundrefn newydd i ddod i rym.

**Costau ac Arbedion y Cynnig**

- Mae Memorandwm Esboniadol sy'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("RIA") yn cael ei ddatblygu i ategu'r Bil a fydd yn mynd i'r afael â chostau ac arbedion posibl sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig. Bydd hyn ar gael ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn.
- Casglwyd tystiolaeth i lywio'r RIA i benderfynu ynghylch y costau cyfredol ac arfaethedig i randdeiliaid. Mae'r dystiolaeth hon i'w gweld yma.

**System y Cynnig**

- Bwriedir y bydd y cynnig hwn yn cael ei weithredu gan y Bil.

# ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

## 2.1 Pobl a Chymunedau

Mae trefniadau ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith mawr a rhoi cydsyniad ar gyfer y prosiectau hynny eisoes ar waith ac yn effeithio ar gymunedau – mae gan y systemau cydsynio unigol presennol oll eu rhwystrau a'u gwrthbwysau eu hunain, fel y gofyniad i ystyried yr effeithiau ar yr amgylchedd, sy'n cynnwys cymunedau ac iechyd pobl, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyn lleied o niwed â phosibl, os o gwbl. Mae effaith datblygiadau o'r fath yn dibynnu ar ddaearyddiaeth y lleoliadau datblygu arfaethedig fesul achos.

Bydd integreiddio'r amrywiol gyfundrefnau i greu proses unigol yn gwella'r cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a chael budd o'r datblygiad mewn ffordd fwy cydlynus. Bydd hyn yn rhoi sail gadarnach i'r penderfyniadau a wneir o ganlyniad, ac yn sicrhau y caiff pobl a chymunedau eu cynnwys yn well yn y penderfyniadau hynny.

Bydd cyfundrefn gydsynio unedig hefyd yn darparu proses gyson sy'n effeithlon yn weinyddol a fydd i fudd i bawb sy'n defnyddio'r system, ceisyddion, ACLlau, y cyhoedd a Gweinidogion Cymru, fel y gwneuthurwyr penderfyniadau. Yn gyffredinol, ystyrir na fydd llawer o effaith o gwbl ar bobl a chymunedau.

Caiff unrhyw effaith bosibl sy'n gysylltiedig â datblygiadau a gaiff gydsyniad o dan y gyfundrefn a nodir yn y Bil yn y dyfodol ei hasesu fesul achos, ac felly nid yw'n bosibl asesu materion safle benodol ar y lefel uchel hon. Caiff materion o'r fath eu hystyried fel rhan o'r penderfyniad cyffredinol ar ddatblygiadau unigol, a bydd yr effaith ar bobl a chymunedau yn llywio'r penderfyniad.

## 2.2 Hawliau Plant

Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant na phobl ifanc. Effaith net y Bil yw uno a symleiddio prosesau a chreu mwy o gyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mewn rhai achosion, mae'r hawliau hyn eisoes yn bodoli, er enghraifft yn y system gynllunio, er mai prin iawn y caiff plant a phobl ifanc eu cynnwys mewn penderfyniadau cynllunio. Er y bydd hawliau plant yn gwella drwy gael cyfle i gyfrannu barn ar benderfyniadau lle na fyddent o bosibl wedi gallu cael cyfle o'r blaen, gwelliant bach yw hwnnw. Nid yw'r broses o gyflwyno'r Bil yn cynnig unrhyw gyfle penodol i hyrwyddo gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) na dealltwriaeth ohono.

Gan ei fod wedi ystyried siart llif yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r CCUHP, nid yw'r cynnig polisi yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

## 2.3 Cydraddoldeb

Cwblhawyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig polisi, fel sy'n ofynnol, ac mae ar gael yn Atodiad A.

## 2.4 Prawfesur Gwledig

Bydd cyflwyno'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cynnig datblygu perthnasol gynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol â'r gymuned, cyn ystyried ceisiadau ac yn ystod y broses o'u hystyried. Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i ddangos tystiolaeth o waith ymgynghori ac ymgysylltu o'r fath fel rhan o'r broses gwneud cais.

Caiff natur y gofynion ymgysylltu hyn ei chynllunio er mwyn sicrhau bod cymunedau yn cael y cyfle i gyfranogi a chyfrannu'n llawn. Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr ystyried y defnydd o'r Gymraeg, a dulliau ymgysylltu nad ydynt ar ffurf ddigidol, fel hysbysiadau safle a hysbysu uniongyrchol, mewn ardaloedd lle ceir mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd.

Rydym yn cydnabod bod y defnydd o'r Gymraeg fel mamiaith neu'r unig iaith yn uwch mewn cymunedau mwy gwledig. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, o ran polisi a chanllawiau, yn ogystal â ffurflenni a dogfennaeth, yn ddwyieithog yn unol â'r dyletswyddau y mae Safonau'r Gymraeg yn eu gosod ar Weinidogion Cymru.

Mae Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn ar gael yn Atodiad B.

## 2.5 Iechyd

Oherwydd natur y cynnig, nid ystyrir y bydd y gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil yn cael unrhyw effaith ar iechyd. Mae'n bosibl y gofynnir am Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer ceisiadau unigol o dan y gyfundrefn hon ac y byddai eu hangen fel sail i'r polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy'r broses a bennir yn y Bil, ond nid oes angen ystyried y mater ar hyn o bryd.

**2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?**

Ystyrir na fydd y Bil yn creu unrhyw effaith, yn gadarnhaol nac yn negyddol, ar unrhyw benderfynyddion iechyd.

**2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?**

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith iechyd, yn gadarnhaol nac yn negyddol, ar unrhyw grŵp penodol.

Nid oes angen asesiad manylach o'r effaith ar iechyd gan fod y cynnig hwn yn anelu at uno cyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes. Ystyrir na fydd unrhyw effaith ar iechyd yn deillio o bennu proses newydd, sy'n cynnwys yr un rhanddeiliaid neu randdeiliaid tebyg. O ganlyniad, nid ystyrir bod asesiad llawn o'r effaith ar iechyd yn briodol.

## 2.6 Preifatrwydd

**Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?**

Bydd – er bod y wybodaeth hon eisoes yn cael ei chofnodi a'i phrosesu gan y cyfundrefnau cydsynio presennol, yn unol â deddfwriaeth ar gyfer preifatrwydd a diogelu data.

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gael yn Atodiad C isod.

## 2.7 Anfantais economaidd-gymdeithasol

Oherwydd natur y cynnig, nid ystyrir y bydd y Bil yn cael unrhyw effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd uno'r cyfundrefnau cydsynio presennol sydd eisoes yn cynnwys systemau ymgysylltu ac ymgynghori yn helpu i liniaru unrhyw effaith bosibl. At hynny, bydd y gyfundrefn gydsynio a gyflwynir gan y Bil yn sicrhau bod trefniadau ymgynghori ar waith lle na ddeddfir ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

Er y gallai ceisiadau datblygu unigol o dan y gyfundrefn gael effaith, caiff hyn ei ystyried ar y pryd a chynhelir asesiad priodol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 6 isod.

# ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

## 3.1 Llesiant Diwylliannol

Fel y nodir ymhellach isod o dan 3.1a, caiff unrhyw effaith bosibl a gaiff datblygiad ar yr amgylchedd hanesyddol adeiledig ei hystyried a'i chynnwys yn y penderfyniad cyffredinol ar ddatblygiadau unigol. Ni fydd y cynnig fel y saif yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar lesiant diwylliannol.

**3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (ar gyfer y Gymraeg, gweler adran 3.2)**

Mae'r Bil yn creu cyfle i bob agwedd ar gynnig seilwaith mawr gael ei hystyried ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu y caiff agweddau ar gynigion datblygu sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth, y gellid eu nodi er enghraifft drwy asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, eu hystyried yn gyffredinol, ac y byddant yn rhan o'r penderfyniad cyffredinol. O dan y system bresennol, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar rai o'r cydsyniadau unigol i wneud hynny. Mae hyn yn welliant cyffredinol o ran ystyried materion sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth fel rhan o gynigion seilwaith mawr.

**3.1b A allai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Ni fyddai'r Bil yn creu unrhyw effaith andwyol ar y meysydd hyn.

## 3.2 Y Gymraeg

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gael isod yn Atodiad D.

# ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

## 4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?**

Mae'r Bil yn creu mwy o eglurder a sicrwydd i fusnesau a'r cyhoedd drwy gyflwyno un gyfundrefn gydsynio integredig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

Ar gyfer busnesau, bydd proses unigol ar gyfer gwneud cais – ac mae'n debygol y bydd angen yr un nifer neu'r un math o adroddiadau ategol ac y bydd angen paratoi'r un nifer neu'r un math o ddogfennau â'r broses bresennol. Fodd bynnag, bydd cyflwyno un cais i'w ystyried gan un corff yn dileu unrhyw achosion o ddyblygu gwaith, ac o gyflwyno'r un dadleuon fel rhan o amrywiaeth o brosesau penderfynu unigol.

Yn arbennig, rhagwelir y bydd uno cysyniadau yn cynnig arbedion cost sylweddol i ddatblygwyr o ran y nifer o gydsyniadau unigol y byddant yn gwneud cais amdanynt a'r amser y mae'n ei gymryd i'w hystyried ar wahân. Bydd y Bil yn cyflwyno cyfnodau amser statudol ar gyfer penderfyniadau o'r fath, gan greu sicrwydd sylweddol ar gyfer cynigion seilwaith mawr y mae angen iddynt ddenu buddsoddiad ariannol sylweddol.

Mae uno cysyniadau yn cynnig y cyfle i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan mewn trafodaethau am rinweddau cynigion datblygu fel rhan o un broses benderfynu unigol. Mae hyn yn symleiddio profiad a all fod yn ddryslyd ac yn rhy fiwrocrataidd i aelodau o'r cyhoedd sydd am gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno dyletswydd statudol i gynnal cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio, gan sicrhau bod cymunedau yn cael y cyfle i gyflwyno barn cyn y caiff cais ei gyflwyno, a chan sicrhau y caiff ymwybyddiaeth o'r cynigion datblygu ei chodi cyn i'r broses gydsynio ffurfiol ddechrau.

Bydd penderfyniadau a wneir o dan y broses a bennir gan y Bil hefyd yn cael eu gwneud yng nghyd-destun polisi cenedlaethol sefydledig, a fydd yn cynnig sicrwydd canlyniadau i fusnesau a chymunedau fel ei gilydd.

## 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Bydd y Bil yn cynnwys pwerau i ragnodi rhestr ffioedd, y bwriedir iddi wrthbwyso cost gwaith diangen i lywio penderfyniadau a wneir ar lefel leol ac ar lefel Llywodraeth Cymru. Felly ystyrir mai niwtral fydd y gost i'r sector cyhoeddus.

O ran effeithiau anariannol, bydd y Bil yn golygu y caiff penderfyniadau ar rai prosiectau bach eu gwneud gan Lywodraeth leol unwaith eto yn hytrach nag ar lefel genedlaethol, gan alluogi ACLlau i adennill y costau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar geisiadau o'r fath, a chan sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud ar lefel fwy priodol yn y rhan fwyaf o achosion.

## 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'u gwaith?**

Bydd angen i rai sefydliadau trydydd sector, fel Cymorth Cynllunio Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref, addasu i'r gyfundrefn gydsynio newydd pan gaiff ei chyflwyno. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid trydydd sector i roi hyfforddiant a chanllawiau ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r gyfundrefn newydd sy'n deillio o'r Bil.

## 4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

- **A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?** Ydw
- **A ydych yn creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?** Ydw
- **A allai eich cynnig gael unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. yn sgil mwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?** Gallai

Gan mai cynnig ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yw'r cynnig hwn, cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gyfiawnder ac mae ar gael ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd ar gael mewn perthynas â'r cynnig hwn.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

| | | |
|---|---|---|
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau cenedlaethol, heriau a chyfleoedd y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad E |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid yn yr Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth<br>Arbennig (ACA/AGA): | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 |
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr, draenio tir; a thrydan lle bo angen AEA | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 |

| | | |
|---|---|---|
| o dan y Rheoliadau AEA amrywiol | | |

## 5.1 Adnoddau Naturiol

### 5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

Bydd y Bil yn uno'r broses gydsynio ar gyfer sawl categori datblygu, gan gynnwys ar gyfer datblygiadau ynni, ac yn sicrhau y cânt eu hystyried yng nghyd-destun polisi cenedlaethol, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Cymru'r Dyfodol – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, ynni solar a datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy eraill. Nid yw'r cynigion hynny sy'n mynd yn groes i bolisïau cenedlaethol yn debygol o gael eu cymeradwyo o ganlyniad i'r Bil gan fod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â pholisi cenedlaethol, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.

### 5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

- *Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Parhau â'r capasiti cynhyrchiol, yn benodol drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Lleihau'r perygl o lifogydd;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Cefnogi camau i liniaru ac addasu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau rheoli'r ecosystem;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd yr aer;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau bod gennym ddigon ohono;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Cefnogi dulliau ataliol o fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol o ran llygredd sŵn ac aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol.

- *Cefnogi cydlyniant cymunedol;*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol, er y bydd penderfyniadau sy'n deillio ohono yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.

- *Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.*

Nid yw'r Bil yn creu unrhyw effaith uniongyrchol.

## 5.2 Amrywiaeth

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gael yn Atodiad E isod.

## 5.3 Newid yn yr Hinsawdd

### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

Mae'r Bil yn uno ac yn atgyfnerthu amrywiaeth o gyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes sydd eisoes yn destun dyletswydd i ystyried effaith newid yn yr hinsawdd yn deillio o gynigion datblygu. Er y bydd y broses sy'n deillio o'r Bil yn sicrhau y caiff y rhain eu hystyried yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ar newid yn yr hinsawdd, nid ystyrir y bydd unrhyw effaith berthnasol, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyfer ystyried newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â chyflwyno'r Bil.

### 5.3 b Addasu

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?**

Er y bydd y Bil yn sicrhau y caiff penderfyniadau eu hystyried yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ar newid yn yr hinsawdd, nid ystyrir y bydd unrhyw effaith berthnasol, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â chyflwyno'r Bil.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ai peidio yn ôl y gyfraith.**

Nid oes angen cynnal AAS ar gyfer cyflwyno'r Bil, sy'n ceisio integreiddio cyfundrefnau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen cynnal AAS ar gyfer y polisi sy'n sail i benderfyniadau a wneir drwy'r Bil.

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio yn ôl y gyfraith.**

Nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cyflwyno'r Bil, sy'n ceisio integreiddio cyfundrefnau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, bydd y prosiectau hynny y mae angen cydsyniad ar eu cyfer o dan y Bil yn amodol ar ofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, ac mae'n bosibl y bydd angen Asesiad Priodol ar gyfer prosiectau unigol o dan y Rheoliadau hynny.

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio yn ôl y gyfraith.**

Nid oes angen AEA ar gyfer cyflwyno'r Bil, sy'n ceisio integreiddio cyfundrefnau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes. Bydd y prosiectau hynny y mae angen cydsyniad ar eu cyfer o dan y Bil yn destun gofynion Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (neu unrhyw gyfundrefn a gyflwynir yn lle'r gyfundrefn honno y gellir deddfu ar ei chyfer o dan y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio), a gall fod angen AEA (neu unrhyw asesiad a gyflwynir yn lle AEA) fesul achos.

# ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

**6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

Mae'r Bil yn ceisio uno cydsyniadau sy'n bodoli eisoes, er mwyn symleiddio'r broses i geisyddion a chymunedau fel ei gilydd. Ar ôl ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ni fydd gan y Bil ei hun unrhyw effaith economaidd-gymdeithasol. Gall y penderfyniadau dilynol sy'n deillio o'r Bil, maes o law, arwain at greu cyfleoedd cyflogaeth, a all greu cyfle i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau, er bod y penderfyniadau hynny eisoes yn cael eu gwneud o dan y cyfundrefnau cydsynio unigol sy'n bodoli eisoes. Bydd y broses o ystyried y ddyletswydd hon yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a ragnodir o dan y Bil.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Rydych nawr wedi penderfynu ar y meysydd hynny lle bydd angen cynnal asesiad effaith mwy manwl. Rhestrwch y rhain isod. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| Asesiad Effaith | Oes/Nac oes | Os oes, dylech wneud y canlynol |
|---|---|---|
| Hawliau plant | Nac oes | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant isod |
| Cydraddoldeb | Oes* | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Nac oes | Llenwi'r Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol isod |
| Prawfesur gwledig | Oes | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig isod |
| Iechyd | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Preifatrwydd | Oes | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data isod |
| Y Gymraeg | Oes | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg isod |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Cyfiawnder | Oes | Llenwi'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnrwyd |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod |
| Newid yn yr Hinsawdd | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

* Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau statudol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Roedd cynigion i ddatblygu cyfundrefn gydsynio unedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018. Yn ogystal â bod yn gyfle i'r cyhoedd gymryd rhan drwy wefan Llywodraeth Cymru, targedwyd grwpiau rhanddeiliaid penodol i ymgysylltu â hwy, megis:

- ACLlau;
- Cyrff sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, gan gynnwys PEDW a CNC;
- Cynghorau Tref a Chymuned;
- Sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Cymorth Cynllunio Cymru a sefydliadau amgylcheddol; ac
- Ymgyngoreion statudol ar gynigion datblygu.

Ystyriodd Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad y cynigion hyn.

8.2 **Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Effaith fwyaf arwyddocaol y Bil yw ei fod yn creu un broses sy'n uno a symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru. Bydd hyn yn gwneud y broses yn fwy rhagweladwy a chyson i ddatblygwyr, ac yn creu un broses fwy dealladwy i gymunedau gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau sy'n deillio o ganlyniad i gydsyniadau cysylltiedig yn cael eu gwneud yn drwyadl a bod sylw dyledus yn cael ei roi i bob agwedd ar gynigion datblygu ar yr un pryd.  Mae hyn yn cael ei ystyried yn effaith gadarnhaol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

<u>Y Nodau Llesiant</u>

Cymru Lewyrchus - Bydd y Bil yn cyflwyno cyfundrefn gydsynio a fydd yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws cael cydsyniad i ddatblygiad sy'n lleihau carbon, yn enwedig datblygiad ynni adnewyddadwy. Bydd hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau ar ddatblygiadau cynhyrchu ynni yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol ar newid hinsawdd a charbon isel.

Cymru Gydnerth – Bydd penderfyniadau unedig a wneir o dan y Bil yn cael eu hystyried yn unol â dyletswydd statudol Gweinidogion Cymru i sicrhau datblygiadau cynaliadwy, yn ogystal â chael eu gwneud yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol ar fioamrywiaeth a newid hinsawdd.

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang - fel y nodwyd uchod, bydd penderfyniadau unedig a wneir o dan y Bil yn cael eu hystyried yn unol â dyletswydd statudol Gweinidogion Cymru i sicrhau datblygiadau cynaliadwy.

<u>Yr Amcanion Llesiant</u>

Mae gan Lywodraeth Cymru 10 amcan llesiant a ddefnyddir i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant.

Mae'r 10 amcan llesiant fel a ganlyn:

1) Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

Ni fydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn.

2) Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.

Ni fydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn.

3) Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

Ni fydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn.

4) Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

Er nad yw'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar amrywiaeth, bydd y Bil yn helpu i ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau i sicrhau na fydd datblygiadau yn y dyfodol yn effeithio'n negyddol ar gydraddoldeb.

5) Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

Bydd y Bil yn sicrhau y bydd penderfyniadau yn cael eu hystyried yn unol â dyletswydd statudol Gweinidogion Cymru i sicrhau datblygiadau cynaliadwy, ac felly cyfrannu at economi sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn.

6) Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.

Er na fydd yn Bil yn annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn uniongyrchol, bydd y Bil yn sicrhau na fydd datblygiadau seilwaith yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg.

7) Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.

Bydd y Bil yn ei wneud yn gyflymach ac yn haws cael cydsyniad ar gyfer datblygiad sy'n lleihau carbon, yn enwedig datblygiad ynni adnewyddadwy. Bydd hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau ar ddatblygiad cynhyrchu ynni yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol ar newid hinsawdd a charbon isel.

8) Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

Bydd y Bil yn sicrhau bod penderfyniadau ar ddatblygu seilwaith yn cael eu gwneud yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol. Mae datblygiad y polisïau hyn wedi cynnwys nodau ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, a ddylai felly arwain at ddatblygiad a fydd yn gwneud dinasoedd, trefi a phentrefi yn llefydd gwell i fyw a gweithio ynddynt.

9) Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Fel y nodwyd uchod, bydd y Bil yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws cael cydsyniad ar gyfer datblygiad sy'n lleihau carbon, yn enwedig datblygiad ynni adnewyddadwy. Bydd hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau ar ddatblygiad cynhyrchu ynni yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol ar newid hinsawdd a charbon isel.

10) Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

Ni fydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd y Bil yn cynnwys amserlen statudol ar gyfer penderfyniadau ar brosiectau seilwaith mawr. Bydd perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn destun adolygiad a monitro parhaus, a bydd gofyniad statudol i gyhoeddi'r perfformiad hwn. Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid i fonitro effeithiolrwydd y broses gydsynio a'i heffaith ar ganlyniadau penderfyniadau.

Bydd llwyddiant y broses yn cael ei fonitro drwy gadernid y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwyddi. Pan nad yw penderfyniadau'n denu her gyfreithiol neu eu bod yn destun adolygiad barnwrol aflwyddiannus, bydd y broses yn cael ei hystyried yn un lwyddiannus. Pan geisir adolygiad

llwyddiannus mewn perthynas â phenderfyniad, bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi mewn perthynas â'r achos er mwyn diogelu'r broses at y dyfodol.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Y Dirprwy Gyfarwyddwr:

Neil Hemington

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Dyddiad:

Chwefror 2023

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral gyffredinol o ran cydraddoldeb. Bydd y Bil yn uno cyfundrefnau cydsynio gwahanol ond cyfagos fel rhan o un broses. Y tu hwnt i'r angen i ymgynghori a chynnal gwaith ymgysylltu cyn ymgeisio ar rai mathau o ddatblygiadau lle nad oes unrhyw ofynion i wneud hynny ar hyn o bryd, ni fydd unrhyw newid perthnasol i'r dyletswyddau a fydd ar unigolion, nac ar hawliau unigolion.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

| **Nodwedd warchodedig neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Weithiau, mae technoleg yn gallu bod yn heriol i grwpiau oedran hŷn ac mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn un o effeithiau negyddol posibl y cynnig ar y grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, bydd y Bil yn cadw'r dulliau "traddodiadol" o ymgysylltu â'r gymuned sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys hysbysu uniongyrchol, er mwyn gallu ymgysylltu â | Ymdrech i gyfuno cydsyniadau sy'n bodoli eisoes a'u huno o fewn un gyfundrefn yw'r cynnig hwn. Felly, bydd y dulliau ymgysylltu yr un fath i raddau helaeth. | Fel y nodir, caiff unrhyw effeithiau posibl eu lliniaru drwy barhau â'r dulliau ymgysylltu sy'n bodoli eisoes.<br><br>Caiff y mater hwn hefyd ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwahanol grwpiau oedran.<br><br>Dim effaith gyffredinol. | | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi, neu sut y gellid ei ddefnyddio’n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy’n analluogi pobl sydd â gwahanol fathau o namau) | Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn destun gofynion cydymffurfio W3C ar gyfer gwasanaethau digidol.<br><br>Dim effaith gyffredinol. | Ymdrech i gyfuno cydsyniadau sy'n bodoli eisoes a'u huno o fewn un gyfundrefn yw'r cynnig hwn. Felly mae'n annhebygol y gallai'r cynnig yn anfwriadol achosi rhwystrau i bobl anabl. | Fel y nodir, mae unrhyw effeithiau posibl wedi cael eu lliniaru o ganlyniad i'r gydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau digidol.<br><br>Caiff y mater hwn hefyd ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Dim effaith | Dd/G | Dd/G |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i’r fewnrwyd a chwiliwch am ‘y model cymdeithasol’.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Rhyw / Rhywedd | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |
| Aelwydydd incwm isel | Dim effaith. | Dd/G | Dd/G |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Caiff yr Erthygl fwyaf perthnasol ei hystyried isod.

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Protocol 1 Erthygl 1: Yr hawl i fwynhau eich eiddo mewn heddwch | Nid yw pob un o'r cyfundrefnau cydsynio unigol presennol yn cynnwys gofyniad i gynnal gwaith ymgynghori neu ymgysylltu â'r gymuned cyn ymgeisio. Bydd y Bil yn cyflwyno'r gofyniad hwn ym mhob achos. Mae'r effaith hon yn effaith gadarnhaol net, gan alluogi aelodau'r cyhoedd i roi eu barn ar benderfyniadau a allai effeithio ar eu heiddo neu eu heiddo personol. | Dd/G | Dd/G |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

**Preswylio –** yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd.

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd, a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

# B. ASESIAD O'R EFFAITH O RAN PRAWFESUR GWLEDIG

Bydd y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i geisyddion ymgymryd â gwaith ymgynghori cyn ymgeisio ar gynigion. Er bod gofyniad o'r fath eisoes ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, nid yw'n ofynnol ar gyfer rhai mathau eraill o gydsyniadau.

Mae gwledigrwydd rhai lleoliadau yng Nghymru yn creu heriau o ran gwaith ymgysylltu cyn ymgeisio amserol ac effeithiol gan geisyddion, ac mae'r diffyg mynediad i fand eang cyflymder uchel yn golygu nad oes modd defnyddio dulliau digidol yn unig. Nodir manylion y gweithdrefnau ar gyfer y gweithgarwch ymgynghori cyn ymgeisio hwn mewn is-ddeddfwriaeth a bydd yn ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau gwledig dros ardal ddaearyddol eang. Y bwriad yw y bydd dulliau hysbysu uniongyrchol dwyieithog gan ddefnyddio dulliau post traddodiadol, ynghyd â hysbysiadau yn y wasg a hysbysiadau safle, yn ofynnol o dan rai amgylchiadau penodol.

Bydd ceisiadau unigol ar gyfer cydsyniad seilwaith o dan gyfundrefn y Bil yn cael effaith fwy uniongyrchol ar fywydau pobl, busnesau a chymunedau gwledig. Ystyrir y bydd y systemau a gynhwysir yn y Bil, y gofyniad i ymgynghori cyn ymgeisio, i ymgynghori ar y cais ac i ystyried y cais a'r sylwadau a ddaw i law o ganlyniad mewn ffordd ystyrlon, yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl yn ddigonol. Caiff effaith unrhyw ddatblygiad seilwaith yn y dyfodol ar y boblogaeth wledig ei hystyried fel rhan o'r penderfyniad cyffredinol ar geisiadau unigol.

**Y Gymraeg**

Fel y nodir uchod, wrth ddatblygu ceisiadau seilwaith unigol, bydd yn rhaid ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn ofalus oherwydd ei phwysigrwydd mewn ardaloedd gwledig. Caiff manylion gwaith ymgynghori cyn ymgeisio eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a bydd y Gymraeg yn rhan o'r ystyriaeth honno. Mae'n debygol y bydd angen dulliau hysbysu uniongyrchol dwyieithog gan ddefnyddio dulliau post traddodiadol o dan rai amgylchiadau penodol.

Rydym yn cydnabod bod y defnydd o'r Gymraeg fel mamiaith neu'r unig iaith yn uwch mewn cymunedau mwy gwledig. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, o ran polisi a chanllawiau, yn ogystal â ffurflenni a dogfennaeth, yn ddwyieithog yn unol â'r dyletswyddau y mae Safonau'r Gymraeg yn eu gosod ar Weinidogion Cymru.

**Poblogaeth sy’n Heneiddio**

Mewn is-ddeddfwriaeth, mae'n debygol y bydd cyfundrefn y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol defnyddio dulliau post traddodiadol i hysbysu pobl leol am unrhyw ddatblygiadau seilwaith arfaethedig, ac i osod hysbysiadau safle ar y safle neu gerllaw, yn ogystal â'r gofyniad i osod hysbysebion yn y wasg

leol. Bydd yr is-ddeddfwriaeth hon yn ystyried heriau ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau gwledig dros ardal ddaearyddol eang.

**Yr economi**

Caiff yr effaith ar yr economi wledig leol ei hystyried fel rhan o unrhyw gais arfaethedig ar gyfer cydsyniad seilwaith. Caiff effaith bosibl datblygiadau yn y dyfodol ei hasesu fesul achos.

**Seilwaith**

Fel y crybwyllir uchod, mae gwledigrwydd rhai lleoliadau yng Nghymru yn creu heriau o ran gwaith ymgysylltu cyn ymgeisio amserol ac effeithiol gan geisyddion, ac mae'r diffyg mynediad i fand eang cyflymder uchel yn golygu nad oes modd defnyddio dulliau digidol yn unig. Felly, bydd yr is-ddeddfwriaeth yn ystyried dulliau ymgysylltu cyn ymgeisio yn ofalus, ac mae'n debygol y caiff dulliau post traddodiadol eu defnyddio, yn ogystal â hysbysiadau safle a hysbysiadau yn y wasg leol.

**Tir**

Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol ar dir ardaloedd gwledig ac ni fydd tir ardaloedd gwledig yn cael effaith uniongyrchol ar y cynnig. Fodd bynnag, caiff effaith unrhyw ddatblygiad arfaethedig a ystyrir o dan y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Cymreig ei hystyried fesul safle penodol.

**Golygfeydd Naturiol**

Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol ar olygfeydd naturiol mewn ardaloedd cefn gwlad ac ni fydd golygfeydd naturiol mewn ardaloedd cefn gwlad yn cael effaith uniongyrchol ar y cynnig. Fodd bynnag, caiff effaith unrhyw ddatblygiad arfaethedig a ystyrir o dan y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Cymreig ei hystyried fesul safle penodol.

**Ynni**

Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ynni mewn ardaloedd gwledig ac ni fydd ynni mewn ardaloedd gwledig yn cael effaith uniongyrchol ar y cynnig. Fodd bynnag, caiff effaith unrhyw ddatblygiad arfaethedig a ystyrir o dan y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith Cymreig ei hystyried fesul safle penodol.

# C. GWAITH SGRINIO'R ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Anfonwch eich asesiad i'r Uned Hawl i Wybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) gan anfon copi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

| |
|---|
| Teitl y cynnig: Bil Seilwaith (Cymru) |
| Enw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth: Neil Hemington |
| Cyfeirif yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (Rhif unigryw yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd hwn fel DivDate neu rif ishare y ddogfen)<br><br>A45423887 |
| Disgrifiwch eich cynnig:<br><br>Bydd y Bil yn cyflwyno math newydd o gyfundrefn gydsynio, o'r enw'r Cydsyniad Seilwaith Cymreig (“WIC”), gan uno'r cyfundrefnau hynny sydd eisoes ar waith o dan y canlynol:<br><br>• Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;<br>• Deddf Cynllunio 2008;<br>• Deddf Trydan 1989;<br>• Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992;<br>• Deddf Harbyrau 1964;<br>• Deddf Priffyrdd 1980.<br><br>Mae pob un o'r cyfundrefnau hyn eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol i geisyddion gyflwyno gwybodaeth naill ai i Weinidogion Cymru neu'r ACLlau, er mwyn llywio'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r ceisiadau hynny. Mae'n bosibl y gofynnir hefyd i drydydd partïon gyflwyno gwybodaeth benodol er mwyn eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau. Dim ond gwybodaeth gyswllt fydd y wybodaeth hon – enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost. Mae'r cyfundrefnau presennol eisoes yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac ni fydd y Bil yn cyflwyno unrhyw ofynion gwybodaeth newydd, dim ond cyfuno'r prosesau unigol o fewn un broses. |

A yw'r holiadur sgrinio neu'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data eisoes wedi'i gynnal?

- Nac ydy

A yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw waith prosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw un arall?

• Nac ydy, er y caiff y manylion llawn eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth (a fydd yn destun ei Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei hun) ac ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i'w gwneud yn ofynnol casglu unrhyw wybodaeth newydd y tu hwnt i'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu eisoes

Ticiwch unrhyw eitemau data personol a fydd yn cael eu prosesu (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

**Personol**

| | |
|---|---|
| Enw √<br>Eich cyfeiriad √<br>Cyfeiriad busnes √<br>Cod post √<br>Cyfeiriad e-bost √ | Rhifau ffôn<br>Dyddiad geni<br>Rhif y drwydded yrru<br>Rhif pasbort / rhif cerdyn adnabod<br>Lluniau / delweddau (y gellir eu defnyddio i adnabod unigolyn)<br>Arall (nodwch) |

**Categori Arbennig**

| | |
|---|---|
| Tarddiad hiliol / ethnig<br>Barn wleidyddol<br>Cred grefyddol / athronyddol<br>Aelodaeth o undeb llafur<br>Cyflyrau iechyd corfforol / iechyd meddwl | Data biometrig e.e. DNA, olion bysedd |

| | |
|---|---|
| Bywyd rhywiol<br><br>Cyfeiriadedd rhywiol<br><br>Cofnodion troseddol a llys (gan gynnwys troseddau honedig) | |

Os oes categori arbennig o ddata personol yn cael ei brosesu, a yw'r gwaith casglu data yn orfodol (h.y. nid oes hawl gan y bobl y mae'r data'n ymwneud â nhw i ddewis peidio eu rhoi)?

- Dd/G

A yw unrhyw un o'r bobl y bydd eu data yn cael eu prosesu yn perthyn i un o'r categorïau a ganlyn?

Plant (dan 12 oed)

Cleifion

Ceiswyr Lloches

Gweithwyr Llywodraeth Cymru

- O bosibl (os byddant yn dewis cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau). Ond ni fydd hyn yn rhan o'r cynnig hwn, ac mae'n debygol o gael ei ystyried wrth ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth a fydd yn destun Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Rhowch awgrym o raddfa'r gwaith prosesu (e.e. Cymru gyfan; grŵp wedi'i dargedu)

Caiff data ceisyddion eu casglu drwy ffurflen gais a gyflwynir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Dim ond yn fewnol y caiff y wybodaeth hon ei phrosesu, wrth i'r cais gael ei ystyried. Caiff adroddiad ei gyhoeddi ar y cais a chaiff y rhai hynny a fydd yn dewis cymryd rhan yn y broses graffu gyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r cais unigol eu henwi yn yr adroddiad hwnnw (oni fyddant yn dewis hepgor eu henwau). Byddwn yn cael gwared ar gofnodion o fewn y cyfnod amser safonol, sef 10 mlynedd, ac eithrio'r adroddiad ar y penderfyniad a fydd yn rhan o'r gofrestr gynllunio gyhoeddus am byth.

Ar gyfer y data personol sy'n cael eu prosesu, nodwch

| | |
|---|---|
| Pwy yw'r rheolydd data? | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Unrhyw brosesyddion data? | Llywodraeth Cymru |
| A fydd y data yn cael eu rhannu? | Bydd yr adroddiad ar y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i roi ar y gofrestr gynllunio gyhoeddus. |

Beth yw'r sail statudol ar gyfer prosesu'r data? Nodwch – nid yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ynddo'i hun yn darparu sail gyfreithiol statudol i brosesu data personol.

Mae'r sail statudol ar gyfer casglu a phrosesu'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn y Deddfau perthnasol a restrir yn gynharach ar y ffurflen hon – ond mae adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gymryd camau sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig â'u swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Deddfau eraill hynny. Effaith y Bil newydd yw disodli'r sail statudol ar gyfer cysylltu'r wybodaeth hon a restrir yn y Deddfau uchod â Deddf newydd.

A yw'r gwasanaethau cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellwyd uchod yn darparu'r porth statudol angenrheidiol ar gyfer prosesu (gan gynnwys unrhyw rannu arfaethedig)?

- Nac ydy

A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu data personol newydd neu ddata sydd wedi newid yn sylweddol ynglŷn â phob unigolyn.

- Na fydd

A fydd y data personol yn cael eu cydgrynhoi, eu cysylltu neu eu paru â data o ffynonellau eraill?

- Na fydd

A fydd y data personol yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau awtomatig?

- Na fydd

| |
|---|
| A fydd y data personol yn arwain at fonitro gwrthrychau'r data yn systematig?<br><br>• Na fydd |
| A yw'r cynnig yn cynnwys polisïau/arferion casglu, cadw neu rannu data newydd neu sydd wedi newid, at ddefnydd personol?<br><br>• Nac ydy |
| A oes gennych chi bolisi cadw clir a pha bethau ymarferol sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod eich Polisi Cadw yn cael ei ddilyn?<br><br>• Oes – mae ffeiliau achos yn ddarostyngedig i atodlen cadw a gwaredu'r Is-adran Gynllunio. Caiff adroddiadau ar benderfyniadau eu cadw am byth ar y gofrestr gynllunio gyhoeddus. |
| A fydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno technoleg sy'n amharu ar breifatrwydd fel:<br><br>• Cardiau smart<br>• Tagiau Adnabod Amledd Radio (RFID)<br>• Biometreg<br>• Gwyliadwriaeth weledol (e.e. TCC)<br>• Delwedd ddigidol neu recordiad fideo<br>• Proffilio, cloddio data neu logio traffig electronig<br>• Technolegau lleoli (e.e. System Leoli Fyd-eang, system leoli ffôn symudol)<br>• Arall (rhowch fanylion)<br><br>Na fydd. |
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesau rheoli neu ddilysu hunaniaeth newydd neu sydd wedi newid?<br><br>• Na fydd |
| A fydd y cynnig yn galluogi adnabod unigolion a oedd yn ddienw yn flaenorol?<br><br>• Na fydd |

I'w lenwi gan yr Uned Hawl i Wybodaeth

| |
|---|
| A oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y cynnig hwn?<br><br>• Nac oes<br><br>Nid yw'r cynnig hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a nodir gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. |
| A oes cygor wedi cael ei roi ynghylch cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)?<br><br>• Oes (fel isod):<br><br>• A yw'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafftio Hysbysiad Preifatrwydd? Nac ydy. Bydd angen cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd pan gaiff y data eu casglu unwaith y daw'r Bil hwn yn gyfraith.<br><br>• A yw'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dan erthygl 36(4) o'r GDPR ? Ydy. Er na fydd y Bil hwn yn cyflwyno unrhyw ofynion gwybodaeth newydd, mae'n ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phrosesu data personol y mae'n ofynnol i ni ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch o dan Erthygl 36(4). Mae manylion sut i wneud hyn, gan gynnwys y ffurflen ymgynghori, ar gael ar dudalen 'ymgynghori ar bolisi' y fewnrwyd.<br><br>• A yw'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i lunio contract rhwng Llywodraeth Cymru fel y rheolydd data a phrosesydd trydydd parti? Nac ydy.<br><br>• A yw'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafftio cytundeb rhannu data? Nac ydy. |


## D. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i Cymraeg 2050:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

   03/02/2023

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Nac ydy. Mae'r cynnig yn ymwneud â chyflwyno cyfundrefn gydsynio newydd i ddisodli nifer o gyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes. Mae'r prosesau unigol hynny eisoes yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, a bydd y broses Cydsyniad Seilwaith Cymreig wedi'i chynllunio i gyrraedd y Safonau hynny hefyd.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Mae'r Bil yn cynnig disodli prosesau gwneud cais sydd eisoes yn gwbl ddwyieithog (gan gynnwys y gallu i'r cyhoedd wneud sylwadau mewn gwrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg). Nid oes unrhyw fwriad i newid sut y gall unigolyn ddatgan ei ddewis iaith wrth ryngweithio â Llywodraeth Cymru drwy'r broses hon. Nid oes unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol.

I gael manylion sut mae'r gwasanaethau hyn eisoes yn cael eu darparu yn unol â rhwymedigaethau Cymraeg Llywodraeth Cymru, gweler gweithdrefnau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (“PEDW”) ar gyfer rheoli achosion ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd PEDW yn darparu gwasanaethau rheoli achosion ar gyfer Cydsyniad Seilwaith Cymreig fel y gwna ar hyn o bryd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## E. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

**Ystyriwch Gwestiynau 1-9 ar gyfer POB polisi:**

**Ymwreiddio bioamrywiaeth**

1. **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

   Bydd y Bil yn uno'r prosesau cydsynio ar gyfer ceisiadau lle y gellid yn flaenorol fod wedi ystyried materion yn ymwneud â bioamrywiaeth ar wahân i agweddau eraill ar y penderfyniad ar y cynigion hyn, ac ar adeg wahanol. O ganlyniad, mae'r Bil yn bwriadu sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth eu hystyried fel rhan o benderfyniad ehangach ar bob prosiect seilwaith mawr, sy'n un o ofynion polisi cenedlaethol, a gofynion deddfwriaeth arall fel dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

2. **A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

Ydy – gweler uchod.

3. **Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

Nid yw'r Bil o reidrwydd yn cynnig cyfle i wella dealltwriaeth nac i godi ymwybyddiaeth, ond mae'n sicrhau bod materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o benderfyniadau seilwaith mawr.

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro**

4. **A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

Na – ond bydd y penderfyniadau a wneir o dan y gyfundrefn a gyflwynir drwy'r Bil yn gwneud hynny'n unol â'r wybodaeth orau sydd ar gael ac arolygon a gaiff eu cynnal i ategu unrhyw ddatganiad sy'n asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd fel rhan o'r broses gwneud cais.

5. **A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

Na – ond bydd y penderfyniadau a wneir o dan y Bil yn gwneud hynny, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ar y pryd.

6. **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

Na.

**<u>Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth</u>**

7. **A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

Nid yw cyflwyno'r Bil o reidrwydd yn cynnig cyfle i gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth, ond mae'n sicrhau bod bioamrywiaeth a materion amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o benderfyniadau seilwaith mawr.

8. **A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?**

Dd/G

9. **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i'w cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

Dd/G

**Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr, dylech hefyd ystyried Cwestiynau 10-16:**

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn</u>**

10. **A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?**

Nid yw'r Bil yn diddymu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n sicrhau y caiff rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol eu diogelu, a bydd yn sicrhau bod polisi a dyletswyddau perthnasol yn parhau'n berthnasol wrth wneud penderfyniadau unigol mewn perthynas â datblygiadau.

**11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?**

Bydd y Bil yn sicrhau y caiff pob penderfyniad seilwaith perthnasol ei wneud yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth Cymru, yn arbennig polisïau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a'r dull fesul cam.

**Gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol**

**12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?**

Yn anuniongyrchol drwy sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn (gweler uchod).

**13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?**

Yn anuniongyrchol drwy sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn (gweler uchod).

**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

**14. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau?**

Yn ôl eu natur, mae datblygiadau seilwaith yn achosi'r newidiadau uchod. Bydd penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil yn sicrhau y caiff datblygiadau arfaethedig eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn.

**15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd?**

Gweler uchod parthed atgyfnerthu'r cyfundrefnau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes.

**16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**

Bydd y Bil yn sicrhau y caiff penderfyniadau seilwaith sy'n cyflwyno materion bioamrywiaeth y mae angen eu lliniaru eu lliniaru'n briodol.

| Rhif y cwestiwn | Cyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol | Effeithiau negyddol y cynnig | Y camau sydd eu hangen i greu cymaint o gyfleoedd cadarnhaol â phosibl a rhwystro effeithiau negyddol |
|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r Bil yn bwriadu sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth eu hystyried fel rhan o benderfyniad ehangach ar bob prosiect seilwaith mawr, sy'n un o ofynion polisi cenedlaethol, a gofynion deddfwriaeth arall fel dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Bydd y Bil yn rhoi'r gofynion polisi a'r gofynion deddfwriaethol cenedlaethol ar fioamrywiaeth ar waith. Bydd hyn yn sicrhau y caiff materion bioamrywiaeth eu hystyried fel rhan o benderfyniad ehangach ar bob prosiect seilwaith mawr. |
| 2 | Dd/G | Dd/G | DD/G |
| 3 | Nid yw'r Bil o reidrwydd yn cynnig cyfle i wella dealltwriaeth nac i godi ymwybyddiaeth, ond mae'n sicrhau bod materion sy'n | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Bydd y Bil yn sicrhau bod materion bioamrywiaeth yn rhan greiddiol o benderfyniadau seilwaith mawr, a thrwy hynny atal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymwneud â bioamrywiaeth yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o benderfyniadau seilwaith mawr. | | unrhyw effeithiau negyddol posibl. |
| 4 | Bydd penderfyniadau a wneir o dan y gyfundrefn a gyflwynir drwy'r Bil yn gwneud hynny'n unol â'r wybodaeth orau sydd ar gael ac arolygon a gaiff eu cynnal i ategu unrhyw ddatganiad sy'n asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd fel rhan o'r broses gwneud cais. | Os caiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud heb ddefnyddio'r data amgylcheddol diweddaraf sydd ar gael. | Sicrhau bod penderfyniadau a wneir o dan y gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil yn unol â'r wybodaeth orau sydd ar gael. |
| 5 | Na – ond bydd y penderfyniadau a wneir o dan y Bil yn gwneud hynny, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ar y pryd. | | |
| 6 | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| 7 | Nid yw cyflwyno'r Bil o reidrwydd yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynnig cyfle i gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth, ond mae'n sicrhau bod bioamrywiaeth a materion amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o benderfyniadau seilwaith mawr. | | |
| 8 | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| 9 | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| 10 | Nid yw'r Bil yn diddymu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n sicrhau y caiff rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol eu diogelu, a bydd yn sicrhau bod polisi a dyletswyddau perthnasol yn parhau'n berthnasol wrth wneud penderfyniadau unigol mewn perthynas â datblygiadau. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Deddfwriaeth sy'n sicrhau na chaiff prosesau i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol eu diddymu gan y Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Bydd y Bil yn sicrhau y caiff pob penderfyniad seilwaith perthnasol ei wneud yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth Cymru, yn arbennig polisïau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a'r dull fesul cam. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Caiff pob penderfyniad seilwaith perthnasol ei wneud yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth Cymru. |
| 12 | Yn anuniongyrchol drwy sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol. |
| 13 | Yn anuniongyrchol drwy sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn (gweler uchod). | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14 | Bydd penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil yn sicrhau y caiff datblygiadau arfaethedig eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ar y materion hyn. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Sicrhau y caiff penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gyfundrefn a gyflwynir gan y Bil eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol. |
| 15 | Gweler uchod parthed atgyfnerthu'r cyfundrefnau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes. | Dd/G | Dd/G |
| 16 | Bydd y Bil yn sicrhau y caiff penderfyniadau seilwaith sy'n cyflwyno materion bioamrywiaeth y mae angen eu lliniaru eu lliniaru'n briodol. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. | Sicrhau y caiff penderfyniadau seilwaith sy'n cyflwyno materion bioamrywiaeth eu lliniaru'n briodol. |

# F. ASESIAD DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

**Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

O ran ymgysylltu â'r gymuned a chyfraniad y gymuned wrth wneud penderfyniadau seilwaith, bydd y Bil naill ai'n cynnwys dyblygiad “tebyg at ei debyg” o ddulliau ymgynghori presennol â'r gymuned lle bo dulliau cadarn eisoes ar waith (fel drwy'r broses ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol), neu'n cyflwyno dulliau ymgynghori â'r gymuned ar gyfer rhai mathau o benderfyniadau lle nad oes dulliau eisoes ar waith. Yn gyffredinol, ystyrir y byddai'r effaith yn niwtral yn y rhan fwyaf o achosion, neu y byddai gwelliant net bach i'w weld mewn rhai mathau o achosion, gan y bydd yn galluogi pobl, gan gynnwys y rhai hynny o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, lle nad oedd modd iddynt wneud hynny yn flaenorol.

*Pa wybodaeth a gafwyd trwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig/penderfyniad yn effeithio arnynt ac yn benodol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?*

Dd/G – gweler uchod

*A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?*

Dd/G – gweler uchod

*A yw'r cymunedau o ddiddordeb a chymunedau lleoedd wedi cael eu hystyried. (Cyfeiriwch at dudalen 8 yn y canllawiau statudol).*

Dd/G – gweler uchod

*Pa wybodaeth sydd wedi'i hystyried ynglŷn â thueddiadau'r dyfodol?*

Dd/G – gweler uchod

*Pa ddata sydd wedi'u hystyried (Cenedlaethol a lleol)*

Dd/G – gweler uchod

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

Dd/G – gweler uchod

| |
|---|
| **Sut y gallai'r cynnig waethygu anghydraddoldeb canlyniad ymhellach o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**<br><br>Ni allai wneud hynny. Mae'r cynnig yn anelu at uno cyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.<br><br>*Rhowch fanylion ynglŷn ag anghydraddoldebau canlyniad sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio*<br><br>Ni fyddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth ei hun yn cael unrhyw effaith. Byddai penderfyniadau dilynol yn deillio o'r gyfundrefn newydd yn cael eu gwneud yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol, gan gynnwys y polisi ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. |
| *Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*<br><br>Dd/G |

| |
|---|
| **Sut y gallai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**<br><br>Dd/G – gweler uchod |
| *Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*<br><br>Dd/G – gweler uchod |

| |
|---|
| **Sut byddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**<br><br>Dd/G – gweler uchod |
| *Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*<br><br>Dd/G – gweler uchod |